# Cyngor Adnewyddu'r Economi: trefniadau gweithio yn y dyfodol

## 1. Diben

1.1 Mae'r papur hwn yn rhoi cyd-destun i Gyngor Adnewyddu'r Economi i lywio'r drafodaeth ar drefniadau gweithio yn y dyfodol yn y cyfarfod ar 1 Rhagfyr.

## 2. Camau i'w Cymryd

2.1 Gofynnir i Gyngor Adnewyddu'r Economi nodi cynnwys y papur hwn a rhoi adborth yn ystod y drafodaeth ar 1 Rhagfyr.

## 3. Cefndir

3.1 Mae ail-fywiogi model ymgysylltu'r Cyngor Partneriaeth Busnes blaenorol yn un o ymrwymiadau allweddol y cyfeiriad polisi, Adnewyddu'r Economi. Mae'r ymrwymiad hwnnw'n adlewyrchu'r farn gyffredinol bod y model Uwchgynhadledd Economaidd, a oedd mor effeithiol wrth drefnu ymateb Cymreig unigryw yn ystod y dirwasgiad, yn y bôn wedi dod i ben. Mae hefyd yn dangos ein hymrwymiad i adeiladu ar y diwylliant a'r dull o ymgysylltu ar gam cynnar yn ystod y broses o lunio polisi, a oedd yn nodwedd ar y gwaith o ddatblygu Adnewyddu'r Economi.

3.2 Yn ogystal â hynny, mae'r ymrwymiad yn ymateb i safbwyntiau llawer o'r partneriaid a oedd am ddychwelyd i fodel ymgysylltu'r Cyngor Partneriaeth Busnes blaenorol. Fodd bynnag, er bod galw am ddychwelyd i'r model blaenorol, roedd hefyd yn amlwg nad oedd pobl yn dymuno parhau â threfniadau'r Cyngor Partneriaeth Busnes blaenorol. Roedd y cais yn glir - bod angen i ni ddysgu gwersi a mabwysiadu arfer gorau yr Uwchgynadleddau Economaidd a datblygu lefel fwy ystyrlon o ymgysylltu â Llywodraeth o gymharu â threfniadau'r Cyngor Partneriaeth Busnes blaenorol.

3.3 Felly mae'r papur hwn yn adeiladu ar elfennau gorau'r Cyngor Partneriaeth Busnes blaenorol, y gwersi a ddysgwyd o'r Uwchgynadleddau Economaidd megis pwysigrwydd dull sy'n canolbwyntio ar weithredu, ac sy'n cynnig ffordd o weithio i ymgysylltu'n strategol, yn well ac yn fwy effeithiol.

## 4. Cyngor Adnewyddu'r Economi

4.1 Mae'r enw newydd yn cysylltu'r Cyngor yn uniongyrchol â'r cyfeiriad polisi, sef Adnewyddu'r Economi. Mae'n arwydd clir o ddechrau newydd a newid pendant i'r ffordd rydym yn ymgysylltu â'n gilydd ar faterion sy'n effeithio ar y Cyngor.

## 5. Aelodaeth

5.1 Cytunir yn gyffredinol bod gormod o bobl yn bresennol yn yr Uwchgynadleddau Economaidd tuag at y diwedd fel nad oedd modd eu rheoli na chanolbwyntio ar faterion penodol. Mae llawer o'r adborth yn awgrymu y byddai dychwelyd i aelodaeth y Cyngor Partneriaeth Busnes blaenorol fel yr oedd cyn yr Uwchgynhadledd yn cael ei groesawu.

5.2 Ceir gofyniad cyfreithiol sylfaenol yng Nghynllun Busnes Gweinidogion Cymru ar gyfer 14 o aelodau allanol ar y Cyngor Partneriaeth Busnes (dau o Fentrau Cymdeithasol; pum aelod yr un o TUC Cymru a Busnes Cymru, a Chadeiryddion Grŵp Cynghori'r Gweinidog (MAG) a Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB)). Wedi dweud hynny, roedd presenoldeb yn y Cyngor Partneriaeth Busnes blaenorol bob amser yn ehangach na hyn.

5.3 Er ei fod yn briodol cael aelodaeth ddigon eang fel ei bod yn wirioneddol gynrychioliadol, mae hefyd angen i ni ystyried ein profiadau yn yr Uwchgynadleddau Economaidd diweddaraf lle roedd yr aelodaeth mor fawr, fel ei bod yn rhwystro trafodaeth ystyrlon ar adegau. Felly rydym yn ceisio cytuno ar uchafswm aelodau sy'n unol â'n gofynion cyfreithiol, yn ddigon eang, ac eto'n sicrhau digon o ffocws i hwyluso dull ymgysylltu gwirioneddol.

## 6. Amlder Cyfarfodydd

6.1 Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor gyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Byddem yn ystyried bod tri chyfarfod - i gyd-fynd â phob un o Sesiynau'r Cynulliad, ac wedi'u rhaglennu ymlaen llaw yn sicrhau y gellid cynllunio'r gwaith yn briodol a byddai digon o gyfle i fynd ar drywydd camau gweithredu mewn cyfarfodydd olynol.

6.2 Er mwyn i hyn ddigwydd, bydd angen mwy o gymorth ar Gyngor Adnewyddu'r Economi, a bydd gweithgor o swyddogion yn hanfodol i atgyfnerthu ac ategu gwaith y cyngor. Bydd y gweithgor o swyddogion yn cyfarfod yn amlach na'r Cyngor ac yn hwyluso trefniadau partneriaeth ac yn cynnig cysondeb a'r ysgogiad i sicrhau bod Cyngor Adnewyddu'r Economi mor effeithiol â phosibl yn ei gyfarfodydd.

6.3 Er y byddem yn rhagweld y bydd Cyngor Adnewyddu'r Economi yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, byddwn hefyd wrth gwrs yn cadw'r hyblygrwydd i drefnu cyfarfodydd ychwanegol mewn ymateb i ddigwyddiadau neu ddatblygiadau pwysig iawn.

**7. Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru (Deddf Llywodraeth Cymru 2006)**

**7.1** Mae'n ofynnol i'r Cynllun Busnes fod yn destun adolygiad. Mae adolygiadau rheolaidd hefyd yn arfer da. Argymhellir y dylid cynnal adolygiad yn awr o'r Cynllun Busnes er mwyn ystyried gwersi a ddysgwyd wrth fwrw ymlaen a'r gwaith. Fel rhan o'r adolygiad byddwn yn siarad yn ffurfiol ac yn swyddogol â'r holl randdeiliaid. Gan fod profiadau'r Uwchgynadleddau Economaidd wedi arwain at awgrymiadau mor glir, cynigir y dylai'r adolygiad hwn ddefnyddio dull 'ysgafn' a chael ei gyflawni mewn da bryd i'w gyflwyno i gyfarfod nesaf Cyngor Adnewyddu'r Economi.

**8. Ymgysylltu Eang a Strategol**

8.1 Mae'r ddogfen polisi Adnewyddu Economaidd yn rhoi pwyslais sylweddol ar ddull Llywodraeth gyfan a phwysigrwydd gweithio gyda'r sector preifat, y trydydd sector a llywodraeth leol ar nodau a rennir. Mae lle i ystyried cysoni gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn well, gydag amrywiaeth ehangach o randdeiliaid ar faterion strategol allweddol.

8.2 Er enghraifft, mae Cynghorau ar wahân yn ymdrin â chydberthynas Llywodraeth y Cynulliad â'r trydydd sector a llywodraeth leol a gallai system sy'n hwyluso dull gwell o gydlyniant strategol fod o fantais i'r trefniadau hynny. I gyflawni hynny, cynigir y dylai Ysgrifenyddiaethau'r Cynghorau Llywodraeth Leol, y Trydydd Sector a Chyngor Adnewyddu'r Economi gyfarfod unwaith yn ystod pob sesiwn Cynulliad i drafod blaenagendâu a materion sydd o bwys i bawb. Gallai cyfarfod ar y cyd rhwng yr Ysgrifenyddiaethau hefyd fod yn sbardun i ddod ag unigolion allweddol ynghyd o bob rhan o'r sector preifat, y trydydd sector a llywodraeth leol ar sail ad hoc, mewn ymateb i ddigwyddiadau neu ddatblygiadau pwysig iawn ar agenda economaidd a chymdeithasol Cymru.

**Cwestiynau i'r Cyngor**

- A yw'r Cyngor yn cytuno y bydd ymagwedd fwy penodol o ran aelodaeth yn rhoi mwy o gyfle i'r Cyngor fod yn effeithiol ar lefel strategol?

- A yw tri chyfarfod bob blwyddyn, gyda gweithgor o swyddogion yn ymgymryd â gwaith rhwng y cyfarfodydd, yn fodel effeithiol ym marn y Cyngor?

- Beth yw barn y Cyngor ar sut y dylid bwrw ymlaen â'r adolygiad o'r Cynllun Busnes?